



SWYDD: GWEITHIWR/WRAIG GEFNOGOL ACHLYSUROL (GWASANAETH DYDD/PRESWYL)

PRIF DDYLETSWYDDAU'R GWEITHIWR/WRAIG GEFNOGOL ACHLYSUROL (GWASANAETH DYDD/PRESWYL)

I fod yn atebol i Reolwyr Antur Waunfawr i sicrhau gofal a gweithgaredd o safon uchel yn ein gwasanaeth dydd a gwasanaeth Cynllun Cartrefu.

ATEBOLRWYDD A GOFYNION Y SWYDD

Yn y lle cyntaf i'r defnyddwyr yn eu man gwaith dyddiol, ac yna i'r rheolwraig/wŵr perthnasol, ac yn y pen draw i'r Brif Weithredwraig a Bwrdd y Cwmni. Bydd yn ofynnol i deilydd y swydd gyflawni ystod o ddyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd rheolwyr man gwaith y defnyddwyr sy'n derbyn y gefnogaeth.

Bydd gofyn i deilydd y swydd gymryd cyfrifoldeb llawn dros y defnyddwyr yn y man gwaith ac yn eu cartrefi.

Bydd yna ddisgwyliad i ddeilydd y swydd hefyd gyflawni dyletswyddau ar ffurf rota sy'n cynnwys gweithio ar benwythnosau a bydd gofyn i'r deilydd ymgymryd â dyletswyddau cysgu mewn a rhoi cefnogaeth ar wyliau ym Mhrydain neu dramor.

SPEC. PERSON

SGILIAU ALLWEDDOL

- y gallu i hybu a datblygu rhaglen gefnogaeth weithgar i gyd fynd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)
- sgiliau cydweithio da er mwyn medru gweithio yn agos gyda prosiectau i hybu iechyd a lles unigolion
- y gallu i hybu teithio'n annibynol ar draws y Cwmni i unigolion
- y gallu i wrando a chreu perthynas dda gyda'r unigolion sy'n derbyn cefnogaeth.
- y gallu i weithio ar ben ei hun ac fel rhan o dîm
- y gallu i annog unigolion i ehangu eu sgiliau
- y gallu i gofnodi manylion ariannol/personol yn fanwl a chywir

- sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg
- bod mewn cyflwr iechyd da, boed yn gorfforol neu feddyliol iach
- lefel da o ffitrwydd i gefnogi'r unigolion ar weithgareddau hamdden
- gyrrwr/wraig a pherchennog car yn hanfodol
- y gallu i fod yn hyblyg o fewn y swydd gan gynnwys gweithio gydag unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth a/neu safle yn ôl y gofyn

CYMWYSTERAU A GWYBODAETH

- Awydd neu brofiad o weithio efo pobl ag anabledd dysgu
- NVQ Lefel 2 mewn Gofal (disgwylir y deilydd i gyflawni'r cymhwyster o fewn 12 mis o gychwyn y swydd)
- Dealltwriaeth drylwyr ac ymrwymiad i hawliau'r defnyddwyr
- Dealltwriaeth o rôl a diwylliant y sector wirfoddol/menter gymdeithasol yn ddymunol
- Gwybodaeth o ganllawiau lechyd a Diogelwch yn ddymunol

PROFIAD

- Byddai profiad o weithio yn y maes gofal dydd/preswyl o fantais
- Profiad o drafod a negydu efo staff, gwasanaethau, rhieni ayb

AGWEDD

- Agwedd bositif, hyblyg a dealltwriaeth o ddiwylliant Antur Waunfawr ac asiantaethau eraill sydd yn rhoi gwasanaeth dydd.
- Sensitifrwydd a'r gallu i wrando ar ddyheadau'r defnyddwyr a chreu awyrgylch braf yn y man gwaith.

HYBLYGRWYDD

Tynnir eich sylw at y ffaith bod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallant newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid o fewn y Cwmni er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithwyr.

DISGRIFIAD SWYDD - GWEITHIWR/WRAIG CEFNOGOL ACHLYSUROL (DYDD/PRESWYL)

Cyflog - £17,004 y flwyddyn pro rata (£8.72 yr awr fel bo'r galw) o Ebrill 2020 ymlaen

Lleoliad: Yn ddibynnol ar safle gwaith neu gartref y defnyddwyr sydd yn derbyn y gefnogaeth gwasanaeth dydd/preswyl, gall fod yn Waunfawr, Penygroes neu Caernarfon. Bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd gychwyn gyda'r defnyddwyr o'r cartref.

1. Cefnogi'r defnyddwyr yn eu man gwaith a/neu eu cartrefi, i ddatblygu eu sgiliau yn unol â'r cynlluniau gofal.
2. Sicrhau bod y Rheolwyr perthnasol yn cael gwybodaeth am unrhyw broblemau gyda'r Cynllun/iau Gofal neu'r lleoliad/au gwaith.
3. Meithrin perthynas dda gyda'r asiantaethau sy'n cynnig gwasanaethau i'r defnyddwyr yn ogystal â datblygu perthnasau da gyda chymdogion, y gymuned leol, teuluoedd a ffrindiau.
4. Trefnu a mynychu unrhyw apwyntiadau fydd gan y defnyddwyr yn ystod oriau gwaith, ee, meddyg, optegydd, ayb
5. Mynychu unrhyw gyfarfodydd adolygu ar gyfer y defnyddwyr.
6. Sicrhau bod y Cynlluniau Gofal yn cael eu cyflawni. Annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb dros eu gofal personol. Disgwylir cadw safon uchel o lendid personol a sicrhau bwyd maethlon.
7. Yn unol â'r angen sicrhau bod system cofnodi a dosbarthu meddyginiaeth i'r defnyddwyr yn cael ei gyflawni'n briodol.
8. O bryd i'w gilydd mynd ar wyliau a/neu hyfforddiant gyda'r defnyddwyr, boed hynny yn y wlad yma neu dramor.
9. Sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei drosglwyddo rhwng y lleoliad/au gwaith a'r cartref.
10. Unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais y Cwmni.